# Cynllun Strategol 2026-2031 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol – drafft ar gyfer ymgynghoriad allanol

## Cynnwys

1. Cyflwyniad gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr ..... 2
2. Gweledigaeth y Coleg ..... 2
3. Rôl y Coleg ..... 3
4. Gwerthoedd ..... 6
5. Amcanion strategol ..... 7
6. Meysydd blaenoriaeth ..... 8
7. Dulliau gweithredu ..... 9
8. Amcanion strategol a dulliau gweithredu ..... 10
9. Seilwaith ..... 17
10. Cyflawni'r blaenoriaethau ..... 18

## 1. Cyflwyniad gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

*I'w ddrafftio yn nhymor yr hydref 2026.*

## 2. Gweledigaeth y Coleg

**Gweledigaeth hirdymor y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yw bod pob dysgwr yn defnyddio, cynnal a datblygu eu Cymraeg yn ystod eu haddysg neu hyfforddiant trydyddol.**

Mae hon yn weledigaeth barhaus, a'i nod yw cyfrannu at amcanion Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg a dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg erbyn 2050. Cyflwynwyd y weledigaeth hon i Medr yn 2024 fel sail i gyngor cychwynnol y Coleg dan y dynodiad.

Mae'r Gymraeg yn perthyn i ni i gyd. Dylai pob dysgwr yn y sector addysg drydyddol gael cyfle ac anogaeth i ddefnyddio, cynnal a datblygu eu Cymraeg, mewn dull ac ar lefel sydd yn briodol ac yn teimlo'n berthnasol iddynt. Dylai pob dysgwr gwblhau eu haddysg neu hyfforddiant trydyddol yn meddu ar sgiliau Cymraeg fydd yn eu cynorthwyo yn eu camau nesaf yn eu gyrfaoedd a'u bywydau, gan eu caniatáu i fod yn aelodau o weithluoedd a chymunedau dwyieithog.

Yn y weledigaeth hon, mae darparwyr addysg a hyfforddiant yn gwybod beth yw lefel sgiliau Cymraeg dysgwyr ar ddechrau eu cwrs neu eu hyfforddiant. Maent yn cynnig darpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog addas ac ystyrlon i bob dysgwr, beth bynnag fo'u gallu, sgiliau a'u cefndir: yn gyfuniad o ddysgu cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, gwersi Cymraeg, darpariaeth ymwybyddiaeth iaith a/neu gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar leoliad gwaith. Mae pob llwybr ar gael yn Gymraeg. Mae gan bob darparwr ddigon o staff sy'n gymwys i gefnogi dysgwyr ar hyd eu llwybr, ac mae'r cymwysterau sy'n cael eu sefyll ar gael yn Gymraeg. Mae dysgwyr yn cael eu cefnogi i wneud penderfyniadau gwybodus, cadarnhaol ynghylch eu taith yn yr iaith Gymraeg. Mae dysgwyr yn gadael y sector drydyddol wedi cael profiadau addysgol Cymraeg a dwyieithog o'r safon uchaf ac yn barod i ddefnyddio'u Cymraeg yn y gweithle ac yn y gymuned.

**Mae'r cynllun strategol hwn yn cyfleu sut y byddwn ni'n gweithio tuag at gyflawni'r weledigaeth dros y cyfnod 2026–31.**

## 3. Rôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol: ein cyfraniad at gyflawni'r weledigaeth

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gorff cynllunio cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg yn y sector addysg drydyddol.

Gweledigaeth tymor hir ar gyfer y system addysg drydyddol gyfan sydd gennym. I'w gwireddu, rhaid i ni weithio gyda phob darparwr a chorff cenedlaethol sy'n rhan o'r system. Byddwn yn gosod dysgwyr wrth galon y gwaith ac yn defnyddio'n harbenigedd i gefnogi eraill i wneud eu rhan.

Mae newidiadau allanol diweddar yn golygu bod  rôl y Coleg yn esblygu. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys deddfwriaeth newydd, sefydlu Medr fel corff hyd braich i reoleiddio a chyllido'r sector drydyddol, newidiadau polisi, heriau cyffredinol yng Nghymru o ran cyfranogiad, newidiadau demograffig a'r hinsawdd economaidd heriol. O'r herwydd mae angen bod yn eglur am rôl a chyfrifoldebau'r Coleg ac eraill er mwyn sicrhau a mesur llwyddiant.

Addysg prifysgol oedd canolbwynt gwaith y Coleg yn ystod y blynyddoedd cyntaf. Ers 2019 buom hefyd yn gyfrifol am gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg bellach a phrentisiaethau. Yn 2023 cafodd cyfrifoldebau'r Coleg eu hymestyn ymhellach pan gawsom ein dynodi gan Weinidogion Cymru i gynghori Medr ar ei ddyletswyddau yn ymwneud â'r Gymraeg dan Adran 9 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022. O dan y Ddeddf, rhaid i Medr annog y galw am addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg a chyfranogiad ynddi, gan gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod digon o addysg drydyddol cyfrwng y Gymraeg i ateb y galw.

Mae dynodiad y Coleg i gynghori Medr ynglŷn â'r dyletswyddau hyn yn cwmpasu pob rhan o'r sector: addysg bellach, addysg uwch a phrentisiaethau, yn ogystal â dysgu oedolion yn y gymuned a'r chweched dosbarth mewn ysgolion. Tu hwnt i brosiectau penodol a chymharol fach, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyfarwyddo'r

Coleg i ariannu darpariaeth mewn chweched dosbarth na dysgu oedolion yn y gymuned. Mae gan Medr bwerau cyllido a rheoleiddio helaeth felly mae’r dynodiad yn rhoi cyfle sylweddol i’r Coleg gyflawni amcanion strategol na fyddai modd eu cyflawni drwy gyllideb y Coleg yn unig.

At hyn, mae dyletswydd ar Medr i ddefnyddio ei gapasiti rheoleiddiol, cyllido a monitro i gryfhau sefyllfa’r Gymraeg yn y sector. Bydd y Coleg yn cefnogi Medr gyda’n harbenigedd mewn cynllunio iaith a’n profiad o gydweithio’n agos â darparwyr. Nid prif rôl y Coleg yw cynnal a chadw’r ddarpariaeth bresennol, er iddo chwarae rôl allweddol wrth osod y ddarpariaeth honno yn ei lle. Ein nod dros y cyfnod nesaf fydd defnyddio’n cyllid yn strategol i arloesi ac i sbarduno datblygiadau newydd.

Mae Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 yn rhoi ysgogiad ychwanegol i gynllunio addysg drydyddol Gymraeg a dwyieithog yn strategol. Mae’r Ddeddf yn cynnwys targed i gynyddu nifer y siaradwyr i filiwn a hefyd i gynyddu defnydd erbyn 2050. Mae’n gosod nod o sicrhau bod pob dysgwr yn gadael addysg statudol yn siaradwr Cymraeg annibynnol. Bydd Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg y Llywodraeth yn nodi’r camau gaiff eu cymryd i hybu a hwyluso’r defnydd o’r Gymraeg mewn ysgolion ac oddi yno i addysg drydyddol. Mae angen i’r Coleg roi arweiniad clir wrth i’r sector drydyddol gynllunio ar gyfer hyn. Bydd angen darpariaeth addas, cymwysterau Cymraeg a gweithlu cymwys er mwyn cefnogi’r cynnydd yn nifer y dysgwyr sy’n cyrraedd y sector addysg drydyddol yn gallu siarad Cymraeg; yn ogystal bydd angen sicrhau bod anogaeth a chefnogaeth addas yn eu lle i ddysgwyr er mwyn hwyluso llwybrau dilyniant cyfrwng Cymraeg.

Bydd Cod i Ddisgrifio Gallu yn y Gymraeg, wedi’i seilio ar y Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd (CEFR), yn cael ei ddatblygu yn sgil y Ddeddf: erfyn allweddol i’r Coleg a’r system gyfan fesur ac olrhain sgiliau iaith dysgwyr a staff ar draws y sector addysg drydyddol, ac oddi yno i weithluoedd dwyieithog.

Er gwaetha’r datblygiadau cadarnhaol hyn, y gwir amdani ar hyn o bryd yw bod canran uchel o ddysgwyr yn rhoi’r gorau i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob cyfnod allweddol yn eu haddysg, gan arwain at lawer o ddysgwyr yn ymuno

â'r gweithlu yn methu gweithio'n ddwyieithog. Yn ei faniffesto ar gyfer Etholiad y Senedd 2026, galwodd y Coleg ar y Llywodraeth i weithredu'n bwrpasol i:

- Gynyddu nifer y dysgwyr sy'n dilyn llwybrau Cymraeg a dwyieithog drwy'r system addysg gyfan, a'r sector trydyddol yn arbennig.
- Cynyddu'r nifer sy'n gallu ac yn dewis gweithio'n ddwyieithog, gan gynnwys y gweithlu addysg.

Mae ein maniffesto yn pwysleisio bod addysg drydyddol yn bont rhwng addysg statudol a'r gweithle, ac yn allweddol bwysig i hyfywedd cymunedau Cymraeg. Mae gwaith y Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn tynnu sylw at yr angen cynyddol i'r Coleg ac eraill ystyried cyd-destun ieithyddol gwahanol ardaloedd o Gymru wrth gynllunio, ac i gysylltu hynny â'r gweithlu. Mae adroddiad cyntaf y Comisiwn, sy'n canolbwyntio ar gryfhau cymunedau Cymraeg, yn argymell amrywio polisi er mwyn ymateb i anghenion cymdeithasol ac ieithyddol ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Mae'r Coleg yn awyddus i weithio gyda darparwyr i gynllunio ymyraethau i gynyddu darpariaeth addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn rhai o'r ardaloedd hyn er mwyn diwallu anghenion rhannau penodol o weithlu'r cymunedau hynny.

Ni all y Coleg wneud ei waith yn llwyddiannus heb ofyn i ddysgwyr sut gallwn eu cefnogi, a gwrando arnynt. Byddwn yn eiriol dros fynediad i bob person ifanc i addysg drydyddol Gymraeg neu ddwyieithog, ac yn hybu cyfranogiad ymhlith grwpiau sydd wedi eu tangynrychioli.

Mae'r tir wedi ei fraenaru. Ond nid yw caniatáu i bob dysgwr ddefnyddio, cynnal a datblygu eu Cymraeg yn ystod eu haddysg neu hyfforddiant trydyddol yn llwyr o fewn dylanwad na chwmpas gwaith y Coleg. Er mwyn cael y maen i'r wal, bydd gofyn i bob darparwr addysg drydyddol wneud eu rhan. Mae'r sector yn wynebu heriau cyllidebol dyrys yn ogystal â gofynion rheoleiddio newydd. Mae'r Coleg yn deall hynny a bydd yno i'w cefnogi. Ond rydym am weld y darparwyr yn perchnogi'r cyfrifoldeb mewn ffyrdd cadarnhaol, gan blethu cefnogaeth i'r Gymraeg i mewn i'w holl strategaethau. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda darparwyr wrth rannu'n harbenigedd a'n profiad o gynllunio iaith yn y sector addysg drydyddol.

I drawsnewid y sefyllfa ar lefel cenedlaethol, bydd angen i gyrff cenedlaethol arddel eu cyfrifoldebau hwythau mewn modd blaengar ac uchelgeisiol, a hynny mewn dull cydweithredol, wedi'i gyd-gynllunio. Yn ogystal â Medr, mae ystod o gyrff cenedlaethol eraill yn allweddol i lwyddiant y Gymraeg yn y sector drydyddol, gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg, Prifysgolion Cymru, ColegauCymru, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTfW), CYDAG, Cymwysterau Cymru, yr Athrofa, Adnodd, Dysgu, Estyn, Cyngor y Gweithlu Addysg, y QAA, HESA, UCAS, Gyrfa Cymru, ac eraill. Mae ein llwyddiant ni a'u llwyddiant nhw'n rhan o'r un darlun. Byddwn yn defnyddio ein rôl dylanwadu a chynghori yn bwrpasol a chadarnhaol, gan anelu i ddefnyddio'r offeryn hwn i gyflawni amcanion sydd wedi bod tu hwnt i gyllideb a chylch gorchwyl y Coleg dros y 15 mlynedd cyntaf.

Gan ein bod ni, ar adeg llunio a lansio'r Cynllun Strategol hwn, mewn cyfnod o drawsnewid sylweddol (gyda Deddf y Gymraeg ac Addysg yn y broses o gael ei gweithredu, a rhaglen waith Medr, gan gynnwys prosesau cynllunio, rheoleiddio a chyllido, yn datblygu), mae'n bwysig nodi y bydd gweithgaredd y Coleg dros gyfnod y Cynllun yn parhau i esblygu yn sgil y newidiadau i'r dirwedd o'n cwmpas. Bydd cydweithio gyda Medr a'r Llywodraeth i sicrhau eglurder ar rolau a chyfrifoldebau yn flaenoriaeth i'r Coleg yng nghyfnod cychwynnol y Cynllun Strategol.

Rydym am godi'r uchelgais ar draws y sector. Dros y pum mlynedd nesaf, ein nod yw cymryd camau breision tuag at wireddu'r weledigaeth mewn modd fydd yn newid cyfleoedd bywyd dysgwyr, yn arwain at weithluoedd sy'n gallu gwasanaethu'r cyhoedd yn gynyddol ddwyieithog, ac yn cyfrannu'n sylweddol tuag at gynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau dyddiol.

## 4. Gwerthoedd

Mae gwerthoedd y Coleg yn cefnogi ein gweledigaeth ac yn greiddiol i'n ffordd o weithio. Rydym yn gorff cynllunio ieithyddol sydd ag arbenigedd ym maes addysg a pholisi, ac yn gorff arweiniol o ran y Gymraeg o fewn y sector addysg drydyddol.

- Wrth arwain, bydd y Coleg bob tro yn **uchelgeisiol** ac yn **flaengar**, yn **arwain newid**, yn gosod cyfeiriad, ac yn cynnig atebion **arloesol**. Gwnaed cynnydd

mawr dros y bymtheg mlynedd diwethaf, ond mae llawer mwy i'w wneud i wireddu ein gweledigaeth.

- Mae'r Coleg yn gorff **cynhwysol, cefnogol** a **chyfranogol** lle mae pobl yn ganolog i'n gwerthoedd a'n gweithgarwch – boed ein staff ein hunain, ein cydweithwyr ar draws y sector, ac yn bwysicaf oll y dysgwyr. Rhown bwys mawr hefyd ar fod yn **dryloyw** ac yn **gydweithredol**, sy'n greiddiol i'n perthynas gyda darparwyr a phartneriaid.
- Rydym yn barod bob amser i ymateb i heriau newydd, ac felly mae'r Coleg yn gorff **deinamig** ac **ystwyth**, yn adolygu a gwerthuso traweffaith ein gweithgareddau yn gyson, yn barod i **fentro** ac **arbrofi**, a chynllunio'n **feiddgar** ac yn **rhagweithiol** ar gyfer y dyfodol.

## 5. Amcanion strategol

O ystyried gweledigaeth tymor hir y Coleg ar gyfer y Gymraeg yn y sector drydyddol, a rôl y Coleg wrth gyfrannu, ar y cyd ag eraill, at gyflawni'r weledigaeth honno, dyma amcanion strategol y Coleg ar gyfer y bum mlynedd nesaf:

**Amcan Strategol 1: Darpariaeth drydyddol**

Sicrhau y caiff mwy o lwybrau Cymraeg a dwyieithog di-dor eu creu a'u darparu er mwyn i ddysgwyr gwblhau eu haddysg a hyfforddiant trydyddol yn meddu ar y sgiliau Cymraeg fydd eu hangen arnynt wrth ymuno â'r gweithle.

**Amcan Strategol 2: Gweithlu addysg drydyddol**

Cyfrannu at sicrhau cyflenwad o staff cymwys i'r sector trydyddol i alluogi dysgwyr i ddilyn llwybrau Cymraeg a dwyieithog, a'u cefnogi ar hyd y ffordd.

**Amcan Strategol 3: Taith a phrofiad dysgwyr**

Annog a chefnogi mwy o ddysgwyr i wneud penderfyniadau gwybodus a chadarnhaol ynghylch dilyn darpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog yn y sector drydyddol a sicrhau bod cefnogaeth o'r safon uchaf yn cael ei darparu iddynt ar hyd y daith.

## 6. Meysydd blaenoriaeth ar gyfer datblygu'r gweithlu

Yn unol â gweledigaeth tymor hir y Coleg, rydym am sicrhau bod pob llwybr yn y sector trydyddol ar gael yn y Gymraeg. Mae cynnydd pwrpasol tuag at y nod hwnnw wedi digwydd ers i'r Coleg gael ei sefydlu.

Dim ond 12 prif bwnc oedd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector addysg uwch yn 2011. Erbyn hyn mae darpariaeth ar gael ym mhob un o'r 36 prif bwnc. Yn y sector addysg bellach a phrentisiaethau, ers i'r Coleg ddechrau buddsoddi, mae darpariaeth ddwyieithog ar gael ym mhob maes blaenoriaeth a bennwyd gan y Coleg.

Tra bod sicrhau ystod eang o ddarpariaeth i ddysgwyr yn parhau yn allweddol, mae'r Coleg hefyd yn cydnabod yr angen i flaenoriaethu pynciau a meysydd lle mae dybryd angen sicrhau gweithluoedd sy'n gallu gweithio'n ddwyieithog.

Dros y bum mlynedd nesaf felly, yn ogystal â chefnogi darpariaeth mewn ystod eang o bynciau a disgyblaethau, bydd y Coleg yn rhoi ffocws penodol ar gynllunio gweithluoedd ar gyfer y meysydd canlynol:

- **Iechyd**
- **Gofal cymdeithasol**
- **Gofal plant ac addysg (blynyddoedd cynnar, y gweithlu addysg statudol a'r gweithlu addysg drydyddol)**

Ar gyfer y tri maes blaenoriaeth hwn, bydd y Coleg yn cydweithio gyda chyrff arweiniol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Medr a chyrff sectorol ac arbenigol i ddatblygu cynlluniau penodol a fydd yn arwain at gynnydd fesul proffesiwn. Bydd cydweithio gyda phartneriaid megis Comisiynydd y Gymraeg sy'n cynnal deialog gyda chyflogwyr ynghylch anghenion eu gweithlu yn allweddol hefyd.

Yn unol ag adroddiadau ac argymhellion y Comisiwn Cymunedau Cymraeg, bydd cyd-destun ieithyddol gwahanol ardaloedd, ac anghenion eu gwasanaethau ac economïau lleol, yn ystyriaeth ganolog i'r Coleg.

## 7. Dulliau gweithredu

Mae'r Coleg wedi adnabod **pedwar prif ddull gweithredu** er mwyn ymateb i'r **tri amcan strategol**, sef:

**i. Cynllunio strategol**

Mae'r Coleg yn gorff cynllunio strategol cenedlaethol sy'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Medr, cyrff cenedlaethol perthnasol eraill a darparwyr addysg drydyddol i gynllunio cynnydd o ran y Gymraeg yn y sector. Medr yw'r corff sy'n rheoleiddio'r sector drydyddol a bydd yn monitro cydymffurfiaeth darparwyr gydag amod y Gymraeg fel rhan o'r fframwaith rheoleiddio ehangach. Mae'r Coleg yn cefnogi Medr i gytuno ar dargedau ar gyfer darparwyr ac yn chwarae ein rhan wrth adrodd yn ôl i Medr ar gyflawniad yn erbyn y targedau hynny. Mae rôl cynllunio'r Coleg yn cynnwys cynghori Medr ar amcanion a blaenoriaethau eu Cynllun Cenedlaethol arfaethedig ar gyfer y Gymraeg, a bydd y Coleg yn cefnogi ac yn cynghori darparwyr wrth iddynt lunio eu Strategaethau hwy ar gyfer y Gymraeg mewn ymateb i'r Cynllun Cenedlaethol. Byddwn yn cefnogi Medr wrth weithredu Amod y Gymraeg, ac yn darparu cyngor strategol iddynt ar eu cyfrifoldebau mewn perthynas â'r nodau i hybu ac annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg, cynyddu'r galw am, a chyfranogiad mewn, addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, a hybu ac annog cynnal gweithgareddau ymchwil ac arloesi sy'n cefnogi'r Gymraeg. Mae rôl gan y Coleg hefyd i herio darparwyr mewn modd adeiladol a rhannu arfer da ar draws y sector – gan sicrhau bod atebolrwydd yn sbarduno gwelliant gwirioneddol mewn darpariaeth yn hytrach na chydymffurfiaeth ar bapur yn unig. Bydd y Cod Disgrifio Gallu yn y Gymraeg yn allweddol fel sail ar gyfer llawer o'r gwaith cynllunio strategol.

**ii. Cyllido a sbarduno**

Mae'r Coleg yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru ac o ffynonellau eraill i fuddsoddi yn y Gymraeg yn y sector drydyddol. Rydyn ni'n buddsoddi yn seiliedig ar ddata ac ar flaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gyda phwyslais ar gyfrannu at greu gweithluoedd dwyieithog mewn meysydd blaenoriaeth.

Gan fod cyllideb y Coleg yn cyfateb i 1% o gyllideb Medr ar gyfer y sector yn ei chyfanrwydd, y defnydd mwyaf effeithlon o'r cyllid hwnnw yw i sbarduno darpariaeth

newydd mewn meysydd o flaenoriaeth strategol, gyda'r bwriad o sicrhau darpariaeth a gweithgaredd cynaliadwy na fydd yn ddibynnol ar gyllid sbarduno'r Coleg tu hwnt i'r cyfnod sefydlu cychwynnol.

**iii. Hyrwyddo a newid ymddygiad**

Er mwyn cynyddu cyfraddau dysgwyr sy'n ymgymryd â darpariaeth Gymraeg a dwyieithog, mae angen sicrhau, trwy gydweithrediad ag eraill, bod dysgwyr yn ymwybodol o'r cyfleoedd a'r gefnogaeth sydd ar gael iddyn nhw ar yr adeg iawn a'u bod yn cael eu cefnogi i wneud penderfyniadau cadarnhaol ynghylch dilyn y ddarpariaeth. Mae rôl amlwg gan y Coleg wrth ymgysylltu gyda dysgwyr ond bydd yn allweddol dylanwadu ar eraill hefyd i sicrhau eu bod yn derbyn gwybodaeth o'r ffynonellau mwyaf dibynadwy a dylanwadol, sy'n eu cefnogi nhw i wneud penderfyniadau gwybodus. Bydd gwneud defnydd llawn o dechnegau newid ymddygiad dros y cyfnod nesaf yn allweddol.

**iv. Dylanwadu a pholisi**

Mae rôl y Coleg wrth ddylanwadu ar bolisi cyhoeddus wedi datblygu'n sylweddol dros gyfnod y Cynllun Strategol diwethaf ac mae dynodiad y Coleg gan Weinidogion Cymru i gynghori Medr ar ei ddyletswyddau yn ymwneud â'r Gymraeg yn golygu y bydd yr elfen hon o waith y Coleg yn cryfhau yn sylweddol eto dros y pum mlynedd nesaf.

## 8. Amcanion strategol a dulliau gweithredu

<u>**Amcan Strategol 1:**</u>

**Sicrhau y caiff mwy o lwybrau Cymraeg a dwyieithog di-dor eu creu a'u darparu er mwyn i ddysgwyr gwblhau eu haddysg a hyfforddiant trydyddol yn meddu ar y sgiliau Cymraeg fydd eu hangen arnynt wrth ymuno â'r gweithle.**

Er mwyn cyflawni Amcan Strategol 1, bydd y Coleg yn dod i gytundeb gyda Medr a Llywodraeth Cymru ar rolau, cyfrifoldebau a dulliau gweithredu o dan y gyfundrefn rheoleiddio, cynllunio, monitro a chyllido newydd.

Bydd yn gwbl allweddol dod i gytundeb gyda Medr ar system gyllido sydd yn: cynnal darpariaeth brif ffrwd; cymell darpariaeth newydd mewn meysydd strategol; ac yn cynnal darpariaeth lle mae niferoedd yn fach ac yn debygol o aros felly.

Nod y Coleg yw gweithredu fel a ganlyn dros y bum mlynedd nesaf:

**1.i Cynllunio strategol**

- Cydweithio gyda Medr i sefydlu gwaelodlin ar gyfer llwybrau Cymraeg a dwyieithog fesul maes, ardal a sector.
- Dadansoddi'r dystiolaeth a ddaw yn sgil sefydlu'r gwaelodlin, gan gynnwys adnabod bylchau yn y ddarpariaeth, a datblygu argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru, Medr, Cymwysterau Cymru, ac eraill, gan dalu sylw penodol i'r angen i gynnal a chynyddu darpariaeth addas i ddysgwyr sydd eisoes yn ddefnyddwyr hyfedr o'r Gymraeg.
- Cynghori darparwyr addysg drydyddol ar eu Strategaethau Cymraeg a sut i'w rhoi ar waith, gan adnabod a rhannu arfer da.
- Cydweithio gyda Medr a phartneriaid cenedlaethol eraill i ddatblygu cynllun i gynyddu prentisiaethau cyfrwng Cymraeg, gan roi sylw penodol i ardaloedd sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg.

**1.ii Cyllido a sbarduno**

- Cytuno pa egwyddorion ac ystyriaethau a fydd yn gyrru penderfyniadau'r Coleg i fuddsoddi mewn darpariaeth newydd. Gall y rhain gynnwys:
  - Blaenoriaethau Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, ac yn benodol, strategaeth y Llywodraeth i greu gweithluoedd a gweithleoedd dwyieithog.
  - Anghenion gweithlu ar lefel genedlaethol a lleol neu ranbarthol.
  - Dadansoddi'r cyfleoedd i sbarduno darpariaeth newydd hyfyw mewn trafodaeth â darparwyr.
- Ar sail yr egwyddorion hynny, datblygu Strategaeth Gyllido a Sbarduno newydd sy'n seiliedig ar y gwaith i sefydlu'r gwaelodlin a'r dadansoddi a nodir uchod.
- Dod i gytundeb gyda Medr ar gyllideb ar gyfer 'pynciau gwarchodedig' yn y sector addysg uwch, hynny yw, pynciau sydd â niferoedd bach yn eu hastudio ac na fyddai'n gallu cael eu cynnal gan gyllid premiwm yn unig.

- Neilltuo cyllid ar gyfer darpariaeth newydd ar sail y Strategaeth Gyllido a Sbarduno gyda'r bwriad o sicrhau darpariaeth gynaliadwy at y dyfodol na fydd yn ddibynnol ar gyllid sbarduno tu hwnt i'r cyfnod sefydlu cychwynnol.

**1.iii Dylanwadu a pholisi**

- Cynghori a dylanwadu ar gynnwys a gweithrediad Cynllun Cenedlaethol Medr ar gyfer y Gymraeg, gan gynnwys ymchwil cyfrwng Cymraeg a'r Gymraeg fel pwnc
- Cynghori Medr a'r darparwyr ar addasrwydd Strategaethau Cymraeg darparwyr unigol, yn unol â'r amod rheoleiddio ar y Gymraeg.
- Cynghori Medr ar gynllunio cwricwla lleol 16 i 18 mewn perthynas â'r Gymraeg a sicrhau bod dealltwriaeth o bwysigrwydd darpariaeth chweched dosbarth cyfrwng Cymraeg ar gyfer creu llwybrau di-dor, ac ar gyfer cynyddu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg ymhlith pobl ifanc a sefydlu arferion ieithyddol gydol oes.
- Sicrhau bod dealltwriaeth a chytundeb bod rhaid i ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn y cyfnod 14-16 gefnogi dilyniant i addysg drydyddol Gymraeg a dwyieithog gan sicrhau bod cysondeb gyda Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025.
- Dylanwadu ar y dirwedd data er mwyn sefydlu sail tystiolaeth ar gyfer cynllunio, cyllido a monitro darpariaeth Gymraeg a dwyieithog. Bydd hyn yn cynnwys cynghori Medr er mwyn datblygu a gweithredu dulliau o:
    - ddiffinio a chofnodi darpariaeth Gymraeg a dwyieithog mewn modd cyson.
    - adnabod a chofnodi lefel sgiliau Cymraeg dysgwyr a'r gweithlu addysg drydyddol yn unol â'r Cod i Ddisgrifio Gallu yn y Gymraeg, gan gynnwys mesur cynnydd dros gyfnod.
    - dilyn dysgwyr drwy'r system addysg drydyddol.
- Dysgu gan a dylanwadu ar y gymuned cynllunio ieithyddol ryngwladol mewn perthynas ag addysg drydyddol.

**<u>Amcan Strategol 2:</u> Gweithlu addysg drydyddol**

**Cyfrannu at sicrhau cyflenwad o staff cymwys i'r sector trydyddol i alluogi dysgwyr i ddilyn llwybrau Cymraeg a dwyieithog, a'u cefnogi ar hyd y ffordd.**

Er mwyn cyflawni Amcan Strategol 2 bydd y Coleg, mewn cydweithrediad â Medr, yr Athrofa ac eraill, yn datblygu ac yn cynnal cynlluniau sy’n anelu at gynyddu’r capasiti staffio a all gyfrannu at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Yn ogystal, byddwn yn sicrhau bod cefnogaeth ar gael i’r gweithlu er mwyn eu cynorthwyo wrth iddynt gynnal a datblygu llwybrau Cymraeg a dwyieithog di-dor i ddysgwyr.

Dros y bum mlynedd nesaf byddwn yn gweithredu fel a ganlyn:

**2.i Cynllunio strategol**

- Defnyddio’r dystiolaeth a’r dadansoddiad yn sgil y gwaith o sefydlu gwaelodlin ar gyfer y ddarpariaeth, ynghyd â data am sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu cyfredol gan Gyngor y Gweithlu Addysg a HESA, a gwybodaeth fanwl fesul darparwr, er mwyn adnabod anghenion y sector trydyddol o ran gweithlu cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys y rhannau o’r gweithlu sy’n darparu cefnogaeth hanfodol i ddysgwyr megis y gweithlu anghenion dysgu ychwanegol (ADY).
- Mewn cydweithrediad gyda Medr, datblygu fframwaith cynllunio olyniaeth cenedlaethol ar gyfer y gweithlu addysg drydyddol, gan adnabod rolau allweddol a meysydd pwnc bregus, a chynllunio ymyraethau rhagweithiol i liniaru risgiau colli arbenigedd.
- Cydweithio â phartneriaid i sicrhau bod cynlluniau strwythuredig yn eu lle sy’n seiliedig ar anghenion strategol y sector ac sy’n caniatáu i staff addysgu ddatblygu eu sgiliau iaith a’u hyfedredd gyda’r nod, dros gyfnod, o gyflwyno darpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog i’r dysgwyr.
- Sicrhau bod y gweithlu addysg drydyddol Cymraeg yn cael eu cefnogi’n briodol drwy weithgareddau sy’n creu ymdeimlad o gymuned ac yn creu cyfleoedd i rannu arbenigedd a phrofiadau.
- Cynnal ymchwil a chynlluniau peilot er mwyn datblygu arbenigedd yn yr addysgeg sy’n arwain at ddysgwyr sy’n gallu ymdrin â’u meysydd yn hyderus yn y ddwy iaith.
- Cydweithio gyda phartneriaid er mwyn mapio’r sefyllfa staffio yn y sector prentisiaethau a datblygu ymyraethau amrywiol i gynyddu’r staff sy’n gallu cefnogi prentisiaid i ddilyn darpariaeth Gymraeg a dwyieithog.

**2.ii Cyllido a sbarduno**

- Ar gyfer y gweithlu addysg drydyddol presennol:
    - Sicrhau cyfleoedd i staff addysgu sydd eisoes yn siaradwyr Cymraeg i gael mynediad at gefnogaeth wedi'i theilwra i godi eu hyder wrth roi'r Gymraeg ar waith yn y gweithle, gan gynnwys wrth addysgu, gyda blaenoriaeth i staff mewn meysydd o bwys strategol.
    - Rhoi cyfleoedd i staff ddatblygu eu medrau addysgu, trwy rannu'r arferion a'r ymchwil diweddaraf ym maes addysgeg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.
    - Creu cyfres o gynlluniau abwyd i recriwtio staff cymwys o'r tu mewn a thu allan i'r sector addysg drydyddol, a chynlluniau datblygu academyddion gyrfa gynnar yn y sector addysg uwch.
- Adolygu'r Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil er mwyn sicrhau ffocws ar ddatblygu darlithwyr ac academyddion y dyfodol
- Cefnogi myfyrwyr ôl-raddedig i feithrin sgiliau ymchwilio ac addysgu yn y Gymraeg.
- Ar y cyd gyda Medr, a phartneriaid perthnasol, datblygu cynllun strwythuredig i gynyddu'r staff sy'n cefnogi prentisiaid i gwblhau prentisiaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

**2.iii Hyrwyddo a newid ymddygiad**

- Cefnogi Llywodraeth Cymru i sicrhau bod staff ac arweinwyr yn y sector drydyddol yn deall ac yn cefnogi Strategaeth Cymraeg 2050, Safonau'r Gymraeg, dyletswyddau strategol Medr a nodau ac amcanion y Coleg.
- Cefnogi staff o fewn y darparwyr i ddenu mwy o ddysgwyr i ddilyn darpariaeth Gymraeg a dwyieithog gan ddefnyddio technegau newid ymddygiad.

**2.iv Dylanwadu a pholisi**

- Gweithio gyda darparwyr i sicrhau eu bod yn rhyddhau aelodau o staff mewn meysydd o bwys strategol i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg gyda'r bwriad o fedru cyfrannu at ddarpariaeth Gymraeg.
- Gweithio gyda darparwyr i gasglu a lledaenu arfer effeithiol mewn perthynas â chymell staff i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, a chydnabod y gofynion ychwanegol sydd ynghlwm â dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

- Cydweithio gyda chyrff cenedlaethol er mwyn datblygu a rhannu arbenigedd ar addysgeg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar draws y sector.
- Parhau i ddylanwadu ar ddatblygiad hyfforddiant cychwynnol ymarferwyr ar draws y sector er mwyn sicrhau bod y rhaglenni yn rhoi sylw penodol i ymwybyddiaeth iaith, datblygu sgiliau a hyfedredd iaith yr hyfforddeion ac addysgeg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

**Amcan Strategol 3: Taith a phrofiad dysgwyr**

**Annog a chefnogi mwy o ddysgwyr i wneud penderfyniadau gwybodus a chadarnhaol ynghylch dilyn darpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog yn y sector drydyddol a sicrhau bod cefnogaeth o'r safon uchaf yn cael ei darparu iddynt ar hyd y daith.**

Er mwyn cyflawni Amcan Strategol 3, bydd y Coleg yn comisiynu darn o waith i fapio teithiau dysgwyr o addysg uwchradd i mewn i addysg drydyddol ac ymlaen drwyddi. Nod y gwaith fyddai adnabod yr ymyraethau fyddai'n annog a chefnogi dysgwyr i wneud penderfyniadau cadarnhaol ynghylch dilyn darpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog, gan gynnwys ar adegau allweddol, tra'n hyfforddi ac yn astudio. Bydd y Coleg yn sicrhau bod llais y dysgwr yn ganolog wrth lunio a gweithredu cynlluniau yn y maes hwn.

Dros y bum mlynedd nesaf byddwn yn gweithredu fel a ganlyn:

**3.i Cynllunio strategol**

- Parhau i ddatblygu prosesau er mwyn sicrhau bod llais y dysgwr yn ganolog i waith cynllunio'r Coleg.
- Cefnogi darparwyr i sicrhau bod llais y dysgwr yn ganolog i'w gwaith cynllunio a gweithredu mewn perthynas â'r Gymraeg.
- Llunio Strategaeth Taith a Phrofiad y Dysgwr sy'n seiliedig ar y gwaith o fapio teithiau dysgwyr ac sy'n adnabod ymyraethau newid ymddygiad i gefnogi dysgwyr i ddilyn darpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog.
- Comisiynu adolygiad annibynnol o Gynllun Ysgoloriaethau Israddedig y Coleg a'i ddylanwad ar benderfyniadau dysgwyr ynghylch astudio trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

- Cydweithio gydag Adnodd ac eraill i sicrhau bod adnoddau dysgu ar gael i gyfoethogi profiad y dysgwr.

**3.ii Cyllido a sbarduno**

- Yn sgil adolygiad annibynnol o Gynllun Ysgoloriaethau Is-raddedig y Coleg, ystyried a chyflwyno addasiadau i'r cynllun.
- Cefnogi mwy o gynlluniau mentora, a datblygu ac ymestyn dulliau effeithiol eraill sy'n cynghori a chefnogi dysgwyr i wneud penderfyniadau cadarnhaol, yn enwedig yn y meysydd blaenoriaeth.
- Yn seiliedig ar flaenoriaethau Strategaeth Taith a Phrofiad y Dysgwyr, a blaenoriaethau sy'n gysylltiedig ag Amcan Strategol 1 (Darpariaeth), cefnogi gweithgareddau sy'n cyfoethogi profiad y dysgwr (e.e. cynllun datblygu sgiliau cyflogadwyedd cyfrwng Cymraeg, annog darparwyr i gynnig a hyrwyddo gweithgareddau diwylliannol/cymdeithasol Cymraeg) ac yn adeiladu eu hyder wrth astudio a hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

**3.iii Hyrwyddo a newid ymddygiad**

- Gweithredu Strategaeth Taith a Phrofiad y Dysgwr a chynlluniau sy'n deillio ohoni.
- Datblygu perthynas strategol agosach gydag adrannau marchnata'r darparwyr, gan eu cynghori ar eu strategaethau marchnata Cymraeg a dwyieithog a pherthynas y strategaethau hynny gyda Strategaethau Cymraeg y darparwyr.
- Gweithredu i annog a chefnogi dysgwyr sydd wedi'u tangynrychioli i ymgymryd â darpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog.
- Parhau i weithredu cynlluniau cyfathrebu sy'n sicrhau ymwybyddiaeth uchel o waith a llwyddiannau'r Coleg ymhlith y cyhoedd ac ymhlith llunwyr barn a chynulleidfaoedd corfforaethol.

**3.iv Dylanwadu a pholisi**

- Datblygu cyngor i Medr ar weithredu ei ddyletswydd i annog y galw am ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog a chyfranogiad ynddi.
- Ymgymryd â gwaith polisi i ystyried a ellid defnyddio'r system cyllid myfyrwyr addysg uwch i annog dysgwyr i ddilyn darpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog a/neu i weithio mewn sectorau blaenoriaeth yng Nghymru ar ôl graddio.

- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru wrth iddyn nhw ddatblygu'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg i sicrhau bod sylw dyledus yn cael ei roi i'r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol i annog dilyniant o'r sector statudol i'r sector drydyddol yn unol â Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025.
- Cyfrannu at unrhyw adolygiad gan Lywodraeth Cymru o nodau ac amcanion Academi Seren a rôl y cynllun wrth hyrwyddo llwybrau Cymraeg a dwyieithog.
- Cydweithio gyda a chynghori cyrff neu gynlluniau sy'n dylanwadu ar daith y dysgwr i sicrhau eu bod yn arddel eu cyfrifoldebau mewn perthynas â hyrwyddo llwybrau Cymraeg a dwyieithog.
- Cydweithio gyda Medr, cyrff cenedlaethol perthnasol eraill a'r darparwyr i sicrhau bod gwybodaeth di-duedd, hygyrch ar gael i ddysgwyr ynghylch y ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog sydd ar gael.
- Cynorthwyo darparwyr i annog dysgwyr i wneud penderfyniadau cadarnhaol ynghylch dilyn darpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog, gan gynnwys cofrestru dysgwyr yn awtomatig ar ddarpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog os ydynt wedi cael addysg statudol trwy gyfrwng y Gymraeg.

## 9. Seilwaith: yr elfennau sy'n galluogi'r Coleg i gyflawni ei waith

Mae'r Coleg yn ymwybodol iawn mai **pobl** yw ein hadnodd pwysicaf, ac mai pobl fydd yn creu'r newid sydd ei angen i wireddu ein gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg yn y sector trydyddol.

Yn ogystal â sicrhau bod digon o bobl sydd â'r sgiliau angenrheidiol ac ymroddiad i hyrwyddo'r agenda cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn gweithio ar draws gweithlu'r sector addysg trydyddol, pobl hefyd yw adnodd pwysicaf y Coleg ei hun.

Mae'r Coleg yn falch iawn o'r tîm o staff proffesiynol ac effeithiol sydd gennym, a byddwn yn parhau i sicrhau bod gennym **adnodd staffio digonol** i gyflawni ein gwaith i safon uchel, sydd â'r **cyfleusterau a'r adnoddau** angenrheidiol, yn derbyn **hyfforddiant** cyson a chyfleoedd datblygu, ac yn cael eu cefnogi gan drefniadau a pholisïau **adnoddau dynol** cadarn. Byddwn yn buddsoddi lle bo angen i ddatblygu arbenigedd ac i addasu er mwyn ein galluogi i gyflawni rôl y Coleg fel y corff

dynodedig i gynghori Medr ar y Gymraeg, a'r gwaith fydd yn dilyn i gefnogi darparwyr ar draws y sector i gyflawni eu hamcanion.

Bydd y gwaith o ddatblygu a mireinio ein his-adeiledd **gwasanaethau gwybodaeth** yn parhau er mwyn sicrhau systemau digidol effeithiol i gefnogi ein staff yn fewnol a'r sector yn allanol, i wella effeithlonrwydd, i sicrhau **diogelwch data**, ac i hwyluso ein gwaith **ymgysylltu** gyda dysgwyr a staff ar draws y sector, ein rhan-ddeiliaid a phartneriaid, a'r cyhoedd. Mae gan y Coleg **drefniadau cyllid** cadarn. Er mwyn sicrhau bod arian y Coleg yn cael y traweffaith mwyaf posib, bod ein dulliau gweithio yn effeithlon a darbodus, ac i ddiogelu gwytnwch tymor hir y corff byddwn yn cynnal adolygiadau parhaus.

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i fod yn sefydliad **gwrth-hiliol** ac i fod yn rhagweithiol wrth geisio sicrhau bod dysgwyr sydd wedi eu tangynrychioli yn cael mynediad i ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog. Bydd alinio'r Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth bresennol gyda'r Cynllun Strategol hwn yn flaenoriaeth dros y cyfnod nesaf.

Byddwn yn gwneud defnydd helaethach o **ymchwil a data** er mwyn cyfeirio gwaith y Coleg, ac i fod yn sail i'n gwaith cynllunio strategol polisi a mesur effaith.

Mae'r Coleg yn effro i gyfleoedd i wella a chryfhau strwythurau a gweithdrefnau **llywodraethiant** er mwyn sicrhau corff sydd ag adeiledd cadarn a thryloyw, yn cynnal y safonau llywodraethu uchaf, sicrhau bod craffu addas ar ein gwaith, a bod atebolrwydd am ein defnydd o arian cyhoeddus. Byddwn yn sicrhau Bwrdd sydd â'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol i arwain rôl esblygol y Coleg ac i gefnogi'r tîm rheoli a'r staff, bod aelodau annibynnol ar is-bwyllgorau'r Bwrdd sy'n dod ag arbenigedd ychwanegol, a bod fforymau sy'n cynrychioli pob rhan o'r sector – yn enwedig i glywed llais dysgwyr – yn bwydo mewn i'n gwaith cynllunio a pholisi.

## 10. Cyflawni'r blaenoriaethau: adran yn dynodi'r dulliau a'r mesuryddion y bydd angen eu hadnabod er mwyn tracio cynnydd

*Mae proses ar waith i gwblhau'r adran yma yn ystod haf 2026.*